# Tom G James

**From:** Cllr. Bryan Davies
**Sent:** 12 April 2023 12:13
**To:** Democratic Services Unit
**Subject:** E1 - FW: Bryan Davies- Cynllun Datblygi LLeol / Local Development Plan

Annwyl Adran DSU

'Rwyf wedi ceisio danfon yr e-bost hwn yn ymwneud a'r CDLl / LDP i'r [redacted]
ond yn anffodus mae wedi dod yn ol ataf yn 'Undeliverable- forward planning was not found at sirgar.gov.uk'
A fyddech mor garedig a'i ddanfon ymlaen drosof I'r adran briodol gan bod angen iddo gyrraedd cyn y 14eg.

A fyddai posib cael cadarnhad ei fod wedi mynd a chyrraedd yr ochr draw.?

Diolch yn fawr iawn

Bryan

Bryan Dvaies

---

**From:** Cllr. Bryan Davies
**Sent:** 11 April 2023 16:50
**To:** [redacted]
**Cc:** Cllr. Carys Jones [redacted] Cllr. Ann Davies [redacted]
**Subject:** Bryan Davies- Cynllun Datblygi LLeol / Local Development Plan

Annwyl Adran

Carem fynegi fy nghefnogaeth llwyr I'r ddogfen mae'r Cynghorwraig Carys Jones wedi ei baratoi ar y Cynllun Datblygi Lleol (LDP) ar ran Cynghorwyr Plaid Cymru sydd ar Gyngor Sir Gâr.

Credaf ei bod yn hollol bwysig i Gyngor Sir Gâr ac ar draws Cymru gyfan, fedri cefnogi pobl lleol sydd yn byw yn ein hardaloedd gwledig neu am ddod yn ôl i'w hardal genedigol, gael y cyfle a phob cefnogaeth i adeiladu yn yr ardal eu magwyd.
Mae pobl lleol yn mynd yn hynnach ac felly am ymddeol yn yr ardal ac nid am orfod mynd I fyw yn y pentref neu dref agosaf, maent hwy a chenedlaethau cynt wedi gwasanaethu eu hardal wledig lleol a dylem fedri eu cefnogi.
Gweler yr angen ar ieuenctud sydd wedi mynd I ffwrdd I wella eu haddysg neu i weithio sydd am ddod yn ôl I fyw neu am ddechrau bywyd teuluol yn nghefn gwlad ac felly cefnogi yr ysgol a'r diwylliant Cymreig lleol. Yn yr oes hon, gyda chostiau byw mor uchel mae codi teulu yn haws drwy gael Datcu a Mamgu neu aelodau eraill o'r teulu i warchod a chludo plant fel bod angen, yn werthfawr dros ben ac amrhisiadwy. Hefyd gyda phwysau trwm ar yr Awdurdodau Iechyd mae cael ieuenctu I gynorthwyo edrych ar ôl aelodau hynnach o'r teulu yn ysgafnhau ar hyn.
Nid oes daear ar gael I bawb o fewn y CDLl/LDP yng nghefn gwlad ac felly dylem fod yn medri edrych ar geisiadau yn unigol ac yn medri bod yn hyblug I drafod ar yr hyn sydd yn cael ei ofyn amdano ac hyn tu allan ir LDP
Yr Ardaloedd Gwledig yw cadarnle yr Iaith Gymraeg a gyda'r iaith Gymraeg yn mynd i lawr yn nifer y siaradwyr dylem fod yn cymeryd hyn i ystyriaeth a gwneud y gorau i anog tyfiant yr iath ym mhoblogaeth cefn gwald Cymru.
Mae Llywodraeth Cymru am weld nifer y Siaradwyr Cymraeg yn Filiwn erbyn y Flwyddyn 2050 ac os na wneir yr amodau cynllunio yng nghefn gwlad Cymru yn llawer mwy hyblug a'r modd I ddefnyddio synnwyr cyffredin, yna nid oes posib achub ar yr iaith fel y bwriedir.

Gobeithio y gwnewch ystyried o ddifri beth sydd gennyf I'w ddweud uchod ac y gwnewch weithredi yn ffafriol.

Diolch yn fawr iawn am roi o'ch amser I ddarllen fy e-bost

Yr eiddoch yn gywir

Bryan Davies

Cynghorwr Sir Caerfyrddin